Cyfarfod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a Gynhaliwyd ddydd Llun 18fed Chwefror am 10.30am yn Nhŷ Caradog

Yn bresennol:

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S Smith (Cadeirydd)	Mr. E Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S Halsall
Mr. D Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15fed Ionawr 2002

1.1 Yn dilyn cynnwys cynnig ar gyfer trafodaeth ar lywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn 3.3 cofnodion 15fed Ionawr 2002 ac y dylid fod wedi nodi i'r cyfarfod hwn ddechrau am 10.30am, **cymeradwywyd y cofnodion.**

2. Materion yn codi

2.1 **Cytunwyd** y dylai holl gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol ddechrau am 10.30am oni chytunir yn wahanol.

2.2 **Cytunwyd** y byddai'r drafodaeth ar lywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn cael ei chynnal yng nghyfarfod mis Mawrth.

2.3 **Nodwyd** bod y Comisiwn yn dal i aros i dderbyn Cyfarwyddiadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch yr arolwg o ffiniau'r Siroedd a Gedwir yng Nghymru. **Cytunwyd** oherwydd yr amserlen dynn, y dylid gwneud yr holl waith paratoi sy'n bosibl cyn derbyn y Cyfarwyddiadau er mwyn galluogi'r Comisiwn gael cyfle i gwrdd â'r dyddiad cau ym mis Rhagfyr 2002. Byddai cwrdd â'r targed hwn yn golygu na fyddai'r mater o ffiniau siroedd a gedwir na phenderfynwyd arnynt yn effeithio ar waith y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

2.4 **Nodwyd** y trafodwyd y mater o adnoddau ar gyfer hyfforddiant mewn perthynas ag uwchraddio'r wefan gydag adran nawdd y Comisiwn. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth bellach yn aros i gael cyngor gan y Cynulliad.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ardal Cymunedau Llangollen a Llandysilio

3.1 **Nododd y cyfarfod** y llythyr gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn rhoi estyniad i'r Comisiwn hyd ddiwedd mis Mawrth ar gyfer yr ymarfer hwn. Roeddent yn ddiolchgar am hyn.

3.2 Trafododd y cyfarfod y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo ers cyhoeddi adroddiad drafft y Comisiwn ar y mater hwn. **Cytunwyd** na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd

o bwysigrwydd nac ansawdd digonol i gyfiawnhau newid cynigion y Comisiwn sy'n ymddangos yn ei adroddiad drafft.

3.3 **Nododd y cyfarfod** y pryderon a ddatganwyd mewn perthynas â sesiwn gyhoeddus y Comisiwn a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref yn Llangollen ar 30ain Ionawr 2002, a phenderfynodd ddysgu o'r profiad ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau o'r natur hwn yn y dyfodol.

3.4 **Cytunwyd** y dylid gwneud pob ymdrech i gyhoeddi'r adroddiad a'r cynigion terfynol erbyn dyddiad yr estyniad y cytunwyd arno gyda'r Cynulliad.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Casnewydd a Bwrdeistref Sirol Tor-faen – Drafft o'r Adroddiad ar y Cynigion Terfynol.

4.1 Yn dilyn y materion a godwyd yng nghyfarfod mis Ionawr sy'n cael eu trin, **cytunwyd** y dylid cyhoeddi'r adroddiad a'r cynigion terfynol sy'n cynnwys barn ddiwygiedig y Comisiwn.

5. Arolwg o'r ffiniau rhwng Cymunedau Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwmhir yn Sir Powys – Drafft o'r Adroddiad ar y Cynigion Terfynol.

5.1 **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn barhau i gyhoeddi ei adroddiad a'i gynigion ar y mater hwn.

6. Arolwg o'r ffiniau rhwng Cymunedau Dyserth, Prestatyn, Rhuddlan a'r Rhyl yn Sir Ddinbych – Drafft o'r Adroddiad ar y Cynigion Terfynol.

6.1 **Derbyniwyd** yr adroddiad drafft a gyflwynwyd i'r Comisiwn. **Cytunwyd** y dylid cyhoeddi'r adroddiad a'r cynigion ar unwaith.

7. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn ardal Cymunedau Clunderwen a Gorllewin Llandysilio – sylwadau i'r Cynulliad.

7.1 **Nodwyd** bod y Cynulliad wedi derbyn rhagor o sylwadau mewn perthynas â'r arolwg yn ardal Clunderwen/Gorllewin Llandysilio. **Nodwyd hefyd** na chodwyd y mater hwn o'r blaen gyda'r Comisiwn, er gwaethaf yr amser a dreuliwyd yn cynnal arolwg o'r mater.

7.2 **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifenyddiaeth gynorthwyo'r Cynulliad ar ymweliad safle arall â'r ardal.

8. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Geredigion a Sir Benfro yn ardal Cymuned Llandudoch – sylwadau i'r Cynulliad.

8.1 **Nodwyd** bod y Cynulliad wedi derbyn rhagor o sylwadau mewn perthynas â'r arolwg yn ardal Llandudoch. **Nodwyd eto** na chodwyd y mater hwn o'r blaen gyda'r Comisiwn, yn ystod yr arolwg.

8.2 **Nododd y cyfarfod** bod y Cynulliad wedi ysgrifennu at y perchennog tir a wnaeth sylwadau yn gofyn am ragor o fanylion mewn perthynas â'r mater hwn, ond ei fod yn dal i aros am ymateb.

8.3 **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifenyddiaeth gynorthwyo'r Cynulliad ar ymweliad safle arall â'r ardal. **Nodwyd** y byddai'r Arolwg Ordnans hefyd yn bresennol yn yr ymweliad safle.

9. Cais am arolwg o'r ffin rhwng Cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach ym Mwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

9.1 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnal arolwg o'r ffin rhwng Cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach ym Mwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot, gan ddechrau ym mis Mai 2002.

10. Cais am arolwg o'r ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin, Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot, Sir Powys a Dinas a Sir Abertawe

10.1 **Cytunwyd** y byddai'r cais am arolwg o'r ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin, Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot, Sir Powys a Dinas a Sir Abertawe yn cael ei gynnal maes o law. Oherwydd cymhlethdod a maint y materion a godwyd yn y cais gwreiddiol, caiff yr arolwg ei rannu'n arolygon llai.

10.2 **Cytunwyd** y byddai'r arolwg cychwynnol yn ardaloedd Cwmtwrch Uchaf ac Isaf.

10.3 **Nodwyd** yn yr achos hwn y byddai angen cynnal yr arolwg mewn modd priodol a fyddai'n mynd i'r afael â materion siroedd a gedwir a'r effaith bosibl ar waith cynnal arolygon y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

11. Cynllun Gweithredol Blynyddol 2002/03

11.1 Yn dilyn y ffaith bod y diwygiadau y gwnaed cais amdanynt yn y cyfarfod blaenorol wedi'u hymgorffori i'r cynllun, **mabwysiadwyd** y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2002/2003.

12. Unrhyw Fater Arall

12.1 Cadarnhawyd mai'r dyddiadau ar gyfer dau gyfarfod nesaf y Comisiwn fyddai dydd Mawrth 19eg Mawrth a dydd Llun 29ain Ebrill 2002. Bydd y ddau gyfarfod yn dechrau am 10.30am. Cytunir ar y dyddiad ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ym mis Mai yng nghyfarfod mis Mawrth.

12.2 Wrth bennu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd, **cytunwyd** y byddai angen osgoi 4ydd dydd Llun bob mis ac 2il ddydd Iau bob mis er mwyn galluogi Aelodau'r Comisiwn fynychu cyfarfodydd cyrff eraill.

12.3 **Cytunwyd** y dylai Aelodau'r Comisiwn o Ogledd Cymru hawlio un ½ diwrnod i baratoi ar gyfer cyfarfodydd ac un diwrnod cyfan ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn i ganiatáu ar gyfer amser teithio. Dylai'r aelodau sy'n byw o fewn amser teithio rhesymol i leoliad y cyfarfod hawlio'r un swm i baratoi, ond dim ond un ½ diwrnod ar gyfer cyfarfod y Comisiwn oni bai bod yr amser a dreulir yn fwy na 4 awr.

12.4 Pan fydd Aelodau'r Comisiwn yn gwirio gwaith cyfieithu, **cytunwyd** y byddai hawl am un ½ diwrnod yn dâl priodol, yn unol â'r arfer yn y gorffennol.